# CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH**
**25 Hydref 2016, Gosen, Llangwyllog**
**am 7:00 y.h.**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng C McGregor, D Morgan, D Pritchard, D Roberts, W Williams, A Wyn, Cyng R G Parry (Cyngor Sir), Cyng D Rees (Cyngor Sir), Cyng N Roberts (Cyngor Sir) | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Cyng W Vaughan, G D Williams, D ap Rhobert, A Williams | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng D Roberts |
| | |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** - Cyng N Roberts - materion cynllunio |
| | |
| **3** | **DERBYN COFNODION**<br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 20 Medi 2016. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn, Cyng D Pritchard yn cynnig a Cyng C McGregor yn eilio. |
| | |
| **4** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | **Gofeb Talwrn** - Mae'r clerc yn disgwyl clywed gan Inigo Jones. Cynigodd Cyng A Wyn cael pris gan cwmni ym Mlaenau Ffestiniog |
| **4.2** | **Coed - Maes y Coed** - Mae'r Clerc yn disgwyl i Roundwood Tree Technology symud ymlaen gyda'r gwaith |
| **4.3** | **Damwain sgwar Talwrn** - mewn llaw |
| **4.4** | **Mainc Mynydd Bodafon** - Mae gwaith ar y fainc wedi eu cwblhau |
| **4.5** | **Baw ci lôn yr Ysgol -** Mae yr arwyddion ar y polion yn rhy uchel - bydd y Clerc yn cysylltu a'r Cyngor Sir |
| **4.6** | **Lôn Mynydd Bodafon - Penrhoslligwy** - mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir |
| **4.7** | **Arwyddion baw** ci rhwng Lon Hen Hafod a Lon Penybryn yn Talwrn - mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir |
| **4.8** | **Penderfyniad Cais cynllunio 23C332** - Does yna ddim penderfyniad ar y cais eto |
| **4.9** | **Cwyn Polion BT** - Mae Cyng R G Parry wedi cael ymateb i'r cwyn a bydd yn anfon copi o'r ymateb i'r Clerc. |
| | |
| **5** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | **Cynllunio** |
| **5.1** | 23C339 Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i 2 annedd yn Tyn Llidiart, Talwrn - dim sylwadau |
| **5.2** | 23C280F Cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol a parlwr godro yn Plas Llanfihangel, Capel Coch (cynllun diwygiedig) - Gwrthwynebu - un fath â'r cais diwethaf. |
| **5.3** | 23C304C Cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd a creu mynedfa i gerbydau ar dir ger Llecyn Braf, Talwrn - dim sylwadau |
| | **Llofnod…….Cadeirydd 22.11.16** |

| | |
|---|---|
| | |
| **6** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **6.1** | G Hughes pris torri llwybrau cyhoeddus £950 - cytunwyd i dderbyn y pris |
| **6.2** | **Y Grid Genedlaethol** (ymgynghoriad). Dymuniad y Grid oedd dewis y llwybr rhataf drost yr Ynys er bod pobl Capel coch a nifer o ardaloedd eraill wedi gwrthwynebu. Mae pryder y Cyngor yma wedi cael ei fynegi i'r Cyngor Sir. Mae Cyngor Cymuned Llanddyfnan wedi gwrthwynebu polion a'r Wylfa Newydd. Hefyd, paham mewn rhai llefydd mae ceblau yn mynd o dan y dwr ond dim yn Ynys Mon? Bydd y Clerc yn pasio sylwadau y Cyngor ymlaen. |
| | |
| **8** | **MATERION ARIANNOL** |
| **8.1** | Adolygiad ariannol chwarterol - - Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol |
| **8.2** | Adroddiad yr Archwiliwr Allanol - Derbyniwyd yr adroddiad a sylwadau: Dim llythyr penodi'r archwiliwr mewnol, Rheolau mewnol, penodiad yr archwiliwr mewnol, asedau |
| **8.3** | Penderfynwyd talu y canlynnol: Torch Sul y Cofio £20. |
| | |
| **9** | **MATERION ERAILL** |
| **9.1** | Gor-yrru Talwrn - Trafodwyn cwyn am gor-yrru rhwng 1 - 2 yn y bore. Cytunwyd y gallai hyn wedi bod yn rali |
| **9.2** | Halfway, Talwrn (ildio) - Nid yw gyrwyr yn gweld yr ildio nes eu bod wedi cyrraedd yr arwyddion. Efallai bod angen symud yr arwyddion. Bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod ar y safle gyda swyddogion adran priffyrdd. Cynigodd Cyng McGregor mynychu'r cyfarfod. |
| **9.3** | Lon sgwar Talwrn - Hen Bost, Talwrn - trafodwyn cwyn am tyllau yn y lôn o'r sgwar, Talwrn am Ceint (wrth ymyl Marian Bach). Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir. |
| **9.4** | Llwybrau Cyhoeddus Talwrn - mewn llaw |
| **9.5** | Gwrychoedd, Lon yr Ysgol, Talwrn - mae'r gwrychoedd wedi cael eu torri |
| **9.6** | Ceblau broadband - Gofynnwyd i'r Clerc cysylltu â BT am ddiweddariad |
| **9.7** | Ymgynghoriad Ysgol Talwrn - Nid yw y Clerc wedi derbyn unryhw gyfathrebu i wneud a'r ymgynghoriad. Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir am fwy o amser. |
| **9.8** | Mae lamp stryd wrth ymyl 3 Tai Lon Coch angen sensor newydd. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir. |
| **10** | **Materion ar gyfer y rhaglen nesaf** |
| | Dim |
| | **Llofnod…….Cadeirydd 22.11.16** |